Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gymuned Garreglefn**
**Garreglefn**
**Amlwch**
**Ynys Môn**
**LL68 0PH**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gymuned Garreglefn wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Gymuned Garreglefn oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd a rhifedd

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r ysgol wedi cynhyrchu cynlluniau buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. Bellach, mae gan athrawon ymwybyddiaeth gadarn o ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn ac maent yn elwa o glywed staff yn modelu iaith safonol dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau iaith yn gadarn. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o eirfa’n hyderus wrth gyfrannu’n ddeallus i drafodaethau â chyfoedion ac oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn siarad am eu gwaith yn hyderus ac yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud yn gymwys. Er bod staff yn annog disgyblion i siarad Cymraeg ar lawr y dosbarth ac yn ystod amser egwyl, mae lleiafrif ohonynt yn dal yn rhy barod i droi i’r Saesneg wrth drafod â chyfoedion ar draws yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol fedrau darllen cyffredinol priodol. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio’u gwybodaeth ffonolegol yn llwyddiannus i adeiladu geiriau. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn darllen yn hyderus gan ynganu geiriau’n gywir a defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn defnyddio’u profiad personol a’u gwybodaeth flaenorol yn fedrus i ategu eu dealltwriaeth o destunau ac i drafod cynnwys llyfrau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder gynyddol yn y ddwy iaith. Maent yn cywain gwybodaeth a’i defnyddio’n gadarn i gyfoethogi’u dysgu, er enghraifft i ysgrifennu disgrifiadau am swyddi’r werin yn ystod Oes y Tuduriaid. Mae’r disgyblion mwyaf abl yn darllen yn rhugl gan oslefu’n effeithiol wrth ddarllen ar goedd i wahanol gynulleidfaoedd.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu’n briodol mewn arddulliau gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Yn gyffredinol, maent yn ysgrifennu’n estynedig mewn gwersi iaith ac yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn rheolaidd ac yn gymwys ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu ffeil o ffeithiau am lefrith ac yn cofnodi taith banana o’r fferm i’r siop. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn atalnodi eu gwaith yn unol â’r disgwyl o ystyried eu hoed a’u gallu. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn defnyddio priflythyrennau ac atalnod llawn yn rheolaidd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio ystod addas o eiriau yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn sillafu llawer yn

lled gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o fywyd Harri'r Wythfed. Mae llawysgrifen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n addas ac maent yn dangos balchder cynyddol yng nghyflwyniad eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio paragraffau'n ddigon cadarn er mwyn trefnu eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae athrawon wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer ymestyn medrau rhifedd y disgyblion yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus o fewn y gwahanol feysydd ac yn cyfri a datrys problemau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cyfri arian yn y swyddfa bost ac yn mesur cynhwysiant llefrith ar gyfer gwneud ysgytlaeth banana blasus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd, gan gynnwys datrys problemau, yn gymwys ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u dealltwriaeth o siâp a mesur er mwyn darganfod diamedr a chylchred tai crwn Lesotho.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu i ddisgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae staff wedi datblygu cynlluniau gwaith hir dymor effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio unedau gwaith ar gyfer themâu diddorol sy'n nodi'r medrau i'w datblygu ar draws yr holl bynciau a'r meysydd dysgu yn glir. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gael mynediad at ystod eang o brofiadau diddorol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon wedi cydweithio'n bwrpasol gyda swyddogion y consortiwm rhanbarthol ac athrawon o ysgolion eraill i wella'u hymwybyddiaeth o ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y cwricwlwm cenedlaethol ac egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae hyn wedi datblygu hyder yr athrawon a'u galluogi i gynllunio'n annibynnol ac i sicrhau gwell cysondeb ar draws yr ysgol. Bellach, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae gan yr ysgol drosolwg defnyddiol o arddulliau ysgrifennu sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gymhwyso eu medrau ysgrifennu yn gydlynol. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu i'r cynllunio yn rheolaidd sy'n sicrhau bod ganddynt fwy o ddiddordeb yn eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn cynnig her briodol i bob un o'r disgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ansawdd yr addysgu a'r her a roddir i ddisgyblion yn y gwersi ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu yn effeithiol. Mae'r staff yn cynllunio'n fanwl er mwyn

sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn er mwyn cynllunio'n fanwl ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae cynlluniau wythnosol athrawon yn nodi gweithgareddau sydd wedi eu haddasu'n effeithiol i herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r staff yn cynllunio heriau ysgogol ymhob ardal dysgu sy'n cymell diddordeb y disgyblion ac yn eu herio'n effeithiol. Mae trefniant y dosbarth a dealltwriaeth y staff o egwyddorion y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod y gweithgareddau'n cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae hyn yn atgyfnerthu medrau dysgu annibynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn ymroi'n llwyr i weithgareddau a thasgau o fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cael ystod o weithgareddau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb a'u hymrwymiad i ddysgu yn dda. Mae'r staff yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus trwy annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau mewn amrywiaeth o dasgau heriol. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau penodol trwy ystod o themâu penodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn gadarn. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da iddynt gymhwyso'u medrau a defnyddio'u dealltwriaeth flaenorol yn llwyddiannus.

Erbyn hyn, mae ansawdd yr addysgu yn fwy cyson ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhyngddyn nhw â'r disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran cyflawniad disgyblion ac maent yn eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Ar draws yr ysgol, mae'r cymorthyddion dysgu yn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae athrawon yn trafod meini prawf llwyddiant gwersi yn effeithiol gyda'r disgyblion. Mae hyn yn eu helpu i gyflawni gweithgareddau dysgu'n llwyddiannus ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu herio'n effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dewis gwneud tasgau mwy heriol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u cyflawniad. Mae staff ar draws yr ysgol yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu galluogi i adnabod cryfderau yn eu gwaith ac i ddeall sut i'w wella. Rhoddir cyfleoedd addas iddynt ymateb i sylwadau'r athrawon a gwella ar eu hymdrechion cyntaf. Mae'r disgyblion yn dechrau ymateb yn gadarnhaol i'r sylwadau hyn.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cwrdd â'r gofynion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

O dan arweiniad y pennaeth, mae'r staff wedi adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Mae athrawon wedi diwygio ac addasu'r gweithdrefnau yn unol â'r cynllun gwella ôl-arolygiad ac mae eu cyfrifoldebau wrth weithredu'r polisi a'r gweithdrefnau bellach yn glir. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro'r newidiadau'n ofalus i sicrhau bod athrawon yn gweithredu'r systemau newydd yn effeithiol.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, yr athrawon a'r cymorthyddion bellach yn defnyddio tystiolaeth briodol i adnabod anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r wybodaeth o'r system olrhain cynnydd electronig, asesiadau athrawon, canlyniadau profion safonol, a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r athrawon yn creu cynlluniau unigol addas ar gyfer y disgyblion, sy'n arwain at gymorth ychwanegol priodol fel yr angen. Bellach, mae rhieni a disgyblion yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth lunio cynlluniau addysgol unigol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu amserlen briodol ar gyfer darparu sesiynau ymyrraeth i ddisgyblion penodol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan y staff addysgu a chymhorthyddion dysgu. Erbyn hyn, mae staff yn rhannu arferion da o ran y ddarpariaeth hon gydag ysgolion eraill. Mae'r sesiynau cymorth ychwanegol yn hyblyg ac yn sicrhau cefnogaeth sy'n ymateb yn effeithiol a chyflym i anghenion y disgyblion. Er enghraifft, mae unigolion yn cael cefnogaeth dda er mwyn gwella medrau mathemategol sylfaenol, neu eu medrau darllen trwy ddysgu geiriau aml-ddefnydd.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effaith y trefniadau hyn ar ddeilliannau disgyblion yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u targedau.

**Argymhelliad 5: Sefydlogi trefniadau arweinyddiaeth yr ysgol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pennaeth, sy'n rhannu ei amser rhwng Ysgol Garreglefn ac ysgol gyfagos, wedi datblygu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysgu effeithiol a chodi safonau disgyblion. Mae wedi defnyddio ystod eang o arddulliau arwain yn fedrus er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac mae'n rhoi cyfarwyddyd cadarn er mwyn sefydlu diwylliant sy'n arwain at welliant. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar waith yr ysgol. Un o gryfderau'r pennaeth yw'r modd y mae wedi llwyddo i ennill cefnogaeth ac ymddiriedaeth y staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae wedi gwneud hyn trwy sicrhau eu bod nhw hefyd yn derbyn cyfrifoldeb am wella agweddau ar waith yr ysgol. O ganlyniad, maent wedi gwneud cyfraniadau rheolaidd wrth symud yr ysgol yn ei blaen yn llwyddiannus.

Mae trefniadau arweinyddiaeth yr ysgol wedi gosod cyfeiriad strategol gwerthfawr i waith y staff a'r llywodraethwyr trwy arwain y dasg o gynllunio'n llwyddiannus ar gyfer gwelliant. Mae'r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau o'r ddarpariaeth yn ogystal â safonau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r trefniadau sydd wedi eu cyflwyno i ddatblygu cynlluniau gwaith manwl sy'n hyrwyddo addysgeg y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi creu strwythur staffio perthnasol ac wedi amlygu cyfrifoldebau athrawon a chymorthyddion yn glir mewn swydd ddisgrifiadau priodol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod pob athrawes yn cymryd cyfrifoldeb am arwain agweddau penodol o'r cynllun gwella. Yn sgîl cyflwyno'r cyfrifoldebau hyn, mae'r pennaeth yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arwain cyfarfodydd staff ac i herio perfformiad yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau ethos gwaith effeithiol sy'n seiliedig ar hunanarfarnu gonest, tryloywder ac atebolrwydd adeiladol. Mae'r

athrawon yn datblygu eu medrau arwain ymhellach trwy hwyluso gweithdai ar gyfer y llywodraethwyr ar drefniadau olrhain cynnydd, gosod targedau disgyblion a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae eu targedau yn cysylltu'n glir â'r cynllun gwella ôl-arolygiad. Mae hyn wedi arwain at welliannau buddiol mewn llawer o agweddau yn ymwneud â dysgu ac addysgu. Er enghraifft, mae'r athrawon wedi creu cynlluniau gwaith buddiol iawn i sicrhau eu bod yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ar draws y cwricwlwm.

Mae sefyllfa staffio'r ysgol wedi newid yn sylweddol ers yr arolygiad craidd ac mae bellach yn sefydlog. Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau arwain cadarn ar gyfer y staff ynghyd â chamau gweithredu clir i ymateb i unrhyw argyfwng. Yn ei absenoldeb, mae gan aelodau staff gyfrifoldebau penodol sy'n sicrhau bod rheolaeth ddyddiol yr ysgol yn llyfn ac yn effeithiol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod y llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn briodol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae systemau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r corff bellach wedi cryfhau'n sylweddol. Mae'r llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant perthnasol ers yr arolygiad craidd, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae ganddynt berchnogaeth dda dros lywio gwelliannau yn yr ysgol.

Mae'r cadeirydd yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae'n ymweld â'r ysgol yn gyson ac mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r aelodau eraill hefyd yn weithredol wrth osod blaenoriaethau ar gyfer yr ysgol. Mae'r corff wedi penodi aelod o staff parhaol i addysgu yng nghyfnod allweddol 2 ac wedi trefnu rhaglen anwytho effeithiol iawn ar gyfer aelod arall o staff sydd wedi dychwelyd i'w swydd. Mae hyn wedi helpu i sefydlogi'r sefyllfa staffio.

Mae cofnodion cyfarfodydd yn fanwl ac yn nodi unrhyw benderfyniadau a wnaed, y camau i'w gweithredu a phwy sy'n gyfrifol amdanynt, ynghyd ag unrhyw gwestiynau a heriau pwrpasol. Mae hyn yn galluogi mwyafrif y llywodraethwyr i fonitro gwaith yr ysgol yn effeithiol a herio perfformiad er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer gwella.

Mae is-banel gwella, o blith aelodau'r corff llywodraethol, yn gweithredu fel grŵp defnyddiol i adnabod a herio cynnydd yr ysgol yn erbyn gweithgareddau'r cynllun gwella. Mae cyfrifoldebau clir gan yr aelodau am fesur a monitro'r cynnydd mewn agweddau penodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i graffu ar lyfrau a chynlluniau cwricwlaidd ac yn ystyried safonau gwaith disgyblion. Maent wedi llunio amserlen ddefnyddiol ar gyfer eu gweithgareddau, sy'n cysylltu'n fwy effeithiol â'r cyfleoedd monitro a nodir yn y cynllun ôl arolygiad.

Drwy weithgareddau'r is-banel gwella, ac adroddiadau cyson y pennaeth ac eraill, mae aelodau o'r panel yn cynyddu eu dealltwriaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dda am y newidiadau mewn addysgu mathemateg a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn lled effeithiol i herio'r ysgol ynglŷn â chynnydd yn erbyn yr argymhellion. Fodd bynnag, nid oes gan yr holl lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o effaith y camau gweithredu ar safonau disgyblion.

**Argymhelliad 7: Cryfhau'r prosesau hunanarfarnu er mwyn adnabod yn well gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu datblygu. Mae arweinwyr wedi sefydlu amserlen tair blynedd ddefnyddiol o weithgareddau perthnasol sy'n galluogi'r ysgol i flaenoriaethu'n llwyddiannus ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu cadarn hyn yn seiliedig ar dystiolaeth eang ac uniongyrchol, sy'n cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a chynlluniau'r athrawon a barn rhieni a disgyblion. Mae'r pennaeth hefyd wedi cyflwyno cyfleoedd buddiol i'r staff ddysgu mwy am bwysigrwydd craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data perfformiad er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol tuag at y gweithdrefnau hunanarfarnu.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae'r pennaeth yn rhannu deilliannau hunanarfarnu gyda'r holl staff a'r llywodraethwyr er mwyn dathlu llwyddiannau ac adnabod meysydd sydd angen sylw pellach. Mae arweinwyr yn ymateb i'r canfyddiadau yn bwrpasol drwy addasu eu harferion a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth drefnu rhaglen a chwricwlwm ar gyfer addysg gorfforol. Maent yn ailymweld ag argymhellion sy'n deillio o'r weithdrefn fonitro yn rheolaidd er mwyn mesur a gwerthuso cynnydd.

Mae'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu yn sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchiad dilys o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr a'r staff ddealltwriaeth drwyadl o waith yr ysgol sy'n eu galluogi i gynllunio'n fwriadus ac yn strategol ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 8: Sicrhau bod cynlluniau gwella'r ysgol yn arwain at welliannau mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol, gyda chefnogaeth swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm, wedi adnabod gweithgareddau priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd. Mae'r cynllun gwella bellach yn ddogfen gynhwysfawr a defnyddiol sy'n cynnwys targedau ac amserlen glir. Mae'r deilliannau'n fesuradwy ac yn ymwneud yn briodol â gwella safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

Mae is-banel gwella'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn darparu adroddiadau arfarnol sy'n deillio o dystiolaeth uniongyrchol berthnasol a chynhwysfawr. Mae'r adroddiadau'n rhoi trosolwg manwl sydd â ffocws cadarn ar yr agweddau i'w datblygu ymhellach. Mae'r aelodau'n paratoi'n drylwyr ar gyfer y cyfarfodydd monitro a gwerthuso cynnydd, trwy ystyried deilliannau gweithgarwch blaenorol ac unrhyw adroddiadau ysgrifenedig ym mlaen llaw. Maent yn darparu cwestiynau penodol er mwyn cynnig her bellach fel sail i'w trafodaethau. Mae'r arfer hon yn effeithiol ac yn sicrhau bod arweinwyr yn cychwyn ystyried effaith unrhyw ddatblygiadau ar safonau a lles y disgyblion.

Er yr ansefydlogrwydd staffio, mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i rannu cyfrifoldebau cynllunio ar gyfer gwelliant ymysg aelodau eraill o staff. Mae'r ymdrech lwyddiannus hon yn sicrhau gwaith tîm effeithiol. Mae hyn wedi arwain at gysondeb nodedig yn yr addysgu ar draws yr ysgol, er enghraifft yn y defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a her briodol i ddisgyblion.

Mae'r weithdrefn o fonitro cynnydd yn cynnwys arfarniad crynodol o welliannau dros amser. O ganlyniad, mae gan arweinwyr drosolwg clir o'r gwaith sydd wedi ei gwblhau a'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae hyn wedi arwain at welliannau gwerthfawr mewn llawer o feysydd, er enghraifft y cynnydd mewn safonau darllen a rhifedd, gwelliant mewn safonau gwyddoniaeth a gallu rhan fwyaf o'r disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae'r addysgu ar draws yr ysgol bellach yn effeithiol ac yn arwain yn llwyddiannus at ddatblygu dysgwyr hyderus a gwybodus.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai Ysgol Gymuned Garreglefn barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.